

# DILYN FI

## At aelodau Teulu Asaph

## Llythyr Bugeiliol ar gyfer y Flwyddyn Newydd, Ionawr 2021

Rwy’n siŵr ein bod yn gyfarwydd gyda hanes y deuddeg disgybl, sy’n rhan annatod o hanes Iesu yn yr Efengylau. Cyn sicred â bod Eira Wen yn perthyn i’r Saith Corrach, mae Iesu hefyd yn perthyn i’r deuddeg, os nad yw hynny’n ddywediad braidd yn ddifrïol. Yr hyn sydd mor gyfareddol yn yr Efengylau yw criw mor frith yw’r disgyblion. Maen nhw’n gwneud llanastr o bethau, yn camddeall, maen nhw’n amau, maen nhw’n methu credu na dilyn. Ond, dros gyfnod gweinidogaeth Iesu, maen nhw’n cael eu ffurfio’n apostolion ac nid yw Iesu’n ofni, adeg ei ddyrchafael, gosod yr holl fusnes o Efengyl Iachawdwriaeth a’r Eglwys yn eu dwylo.

Cefais fy herio cyn y Nadolig pan ddywedodd rhywun wrthyf nad oedd yn meddwl fod Cristnogion heddiw yn ystyried eu hunain yn ddisgyblion ac nad oedd pobl yn deall beth oedd disgybl. Mae’n enw sy’n perthyn i’r Beibl, ond digon o waith ei fod yn ddisgrifiad cyfoes o ffydd, meddai.

I mi, cwestiwn sylfaenol o ffydd yw a ydw i’n ddisgybl. Nid ymarfer damcaniaethol o’r meddwl yw ffydd, mae sut y mae’n effeithio ar fy mywyd pob dydd. Mae disgybl yn un sy’n dysgu: mae’r Gymraeg yn gliriach, mae'r un gair ‘disgybl’ yn golygu’r ddau air Saesneg ‘disciple' a ‘pupil’. Bod yn Gristion yw cymryd eich bywyd yn eich dwylo a dilyn Iesu. Roedd ‘argyfwng’ disgyblaeth i’w weld pan alwodd Iesu’r deuddeg – yn ddirybudd – o’u gwaith yn pysgota neu’n casglu trethu neu'n gwleidydda. Mae’n ymddangos ac yn gwahodd (neu, efallai, yn “gorchymyn”.) Ac maen nhw'n ei ganlyn, maen nhw'n gadael eu gwaith, yn gadael eu teuluoedd ac yn cychwyn ar daith pen draw iddi, ac eto, maen nhw, mewn gwirionedd, roedden nhw wedi cyrraedd gartref. Mae’r efengylau hyd yn oed yn sôn wrthym am un achlysur pan ddywedodd rhywun “na”: uchelwr ifanc, cyfoethog, nad oedd yn gallu diosg breintiau ei gyfoeth (Marc: 10.17-27).

Ond, mae arna i ofn, nid ein galw i aros yn ein hunfan y mae Iesu, nid i ddweud ein credoau dan deimlad ac, fel arall, i fyw ein bywydau yn ôl ein harfer. Mae’n ein galw i gychwyn ar daith, i ffwrdd o’r cyfarwydd, i ddod yn fwy nag yr ydym ni, i dyfu yn yr ysbryd, yn fwy sanctaidd mewn bywyd, yn gariadus mewn gwasanaeth. Nid yw ychwaith yn ei gwneud hyn yn hawdd i ni, “Os myn neb ddod ar fy ôl i,” meddai yn Luc 9:23, “rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes bob dydd a’m canlyn i.”

A yw hyn yn codi ofn arnom ni? A oedd derbyn bedydd neu fedydd esgob yn y gorffennol yn ddigon fel na fyddai raid i ni dalu sylw i'r alwad sy'n dod heddiw neu yfory, i fynd i rywle anghyfarwydd ac i ddysgu rhywbeth newydd am ystyr bywyd mewn gwirionedd? Dyma beth yw bod yn Gristion: dysgu beth sydd gan Dduw ar ein cyfer ni a’i ddilyn, bod yn ddisgybl. Doedd hi ddim yn hawdd i’r disgyblion ddilyn Iesu, yn wir, mae’n dweud yn un man yn yr Efengyl yn ôl Ioan fod dysgeidiaeth Iesu’n gofyn cymaint nes bod llawer o bobl yn rhoi’r gorau iddi ac yn gadael. (Ioan pennod 6, yn benodol a.66 ff) Mae Iesu’n gorfod troi at y deuddeg a dweud: "Ydych chi i gyd yn gadael hefyd?” Yr hen Seimon Pedr sy’n ymateb y tro yma: “Ble arall allen ni fynd?” meddai, ‘Ti wy'r un gyda'r geiriau sy'n rhoi bywyd tragwyddol."

A dyna'r addewid – dilyn Iesu, mynd ar y daith annisgwyl, darganfod cyfoeth bywyd nad oes ei debyg, y tu hwnt i fendith. Fel y dywedodd John Bunyan yn yr ail ganrif ar bymtheg “A fynno ddewrder gwir, o deued yma. Mae un o ddeil ei dir ar law a hindda. Ni all temtasiwn gref ei ddigalonni ef i ado llwybrau’r nef, y gwir bererin.” Pererin dilynwr, disgybl. Ydych chi’n ddisgybl? Alla i ddim meddwl am well galwedigaeth, nac am daith fwy cyffrous yn 2021, na chodi, diosg y syrthni neu’r anfodlonrwydd a mynd trwy ddrws bywyd, edrych at Iesu, sy’n ymestyn ei law, a dweud wrtho: “Dyma fi, a ble bynnag y byddi di’n arwain, byddaf i’n dilyn.”

+Gregory Llanelwy